



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

ahpf cymru·wales

Arwain Newid, Gwella Bywydau: Arloesedd Gweithwyr Proffesiynol



Cynnwys

t2 Cyflwyniad

Astudiaethau Achos

- t3 Dod â Gofal yn Agosach Adre
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- t4 DFEET – Gwasanaeth Brysbennu Cynnar Argyfwng Traed Diabetig
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- t5 Dull Gweithredu Newydd ar y Cyd ar gyfer Llyncu, Maeth a Rheoli Meddyginiaeth yn Defnyddio Technoleg Ddigidol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- t6 Paratoi'n Dda (Orthopaedeg)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- t7 Arloesi Gwasanaeth Seicoleg Hygyrch, Effeithlon ac Effeithiol ar gyfer Iechyd Menywod
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- t8 Parafeddygon Arbenigol yn Darparu Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Bywyd
Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- t9 Model Gwasanaeth Mynediad a Derbyn Cymunedol Cyflym AHP
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- t10 Traed mewn Argyfwng: Trawsnewid Iechyd Traed
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- t11 Pont i Therapi – Anafiadau Caffaeledig i'r Ymennydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- t12 Sesiynau Trafod Datblygu Lleferydd ac Iaith
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- t13 Tu Hwnt i'r Pelydr: Peilota Gwasanaeth Effeithiau Hwyr Radiotherapi dan Arweiniad Radiograffydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- t14 Arwain Trawsnewid Gwasanaeth gyda Ffocws ar Gleifion a Gofalwyr o fewn Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol Pediatrig
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- t15 **Amdani Addysg a Gwella Iechyd Cymru**
Amdani AHPF Cymru
Ynglŷn â'r ddogfen hon

Cyflwyniad

Ledled Cymru mae arloesedd o fewn y proffesiynau perthynol i iechyd (AHP) yn ail-lunio dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol. Fel un o'r grwpiau gweithlu sy'n tyfu gyflymaf a mwyaf amrywiol yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, mae gweithwyr AHP yn cynrychioli 13 o wahanol broffesiynau a gyda'i gilydd maent yn ffurfio'r gweithlu clinigol trydydd mwyaf yn genedlaethol.

Mae eu cyfraniad yn cwmpasu atal, diagnosis, triniaeth, adsefydlu a chymorth holistig ar draws cwrs bywyd; gweithgaredd sy'n eu rhoi ar flaen y gad wrth drawsnewid gwasanaeth ac arloesi ar draws y system.

Cefnogi'r tirlun proffesiynol hwn yw rôl Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), sefydliad strategol addysg a gweithlu GIG Cymru. Mae AaGIC yn comisiynu ac yn datblygu addysg AHP israddedig ac ôl-raddedig ar draws y wlad, gan sicrhau fod gan Gymru gronfa gynaliadwy a safon uchel o ymarferwyr ar gyfer y dyfodol, er mwyn ffurfio elfen hanfodol o allu'r genedl i arloesi a chyflenwi gofal yn wahanol.

Mae buddsoddiad AaGIC mewn hyfforddiant AHP yn tanlinellu hygyrchedd ariannol, modelau dysgu ar y cyd a safonau proffesiynol cryf. Mae'r rhain yn cyfrannu at weithlu hyblyg gyda sgiliau newydd digidol, clinigol ac arweinyddiaeth ac yn adlewyrchu'r ymroddiad cenedlaethol i drawsnewid mewn gwasanaethau, ond hefyd mewn hunaniaeth broffesiynol, hyblygrwydd a pharodrwydd i yrru newid.

Mae sefydlu Ffederasiwn Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru (AHPF Cymru) wedi cryfhau'r momentwm hwn ymhellach drwy greu llais cenedlaethol unedig ar gyfer cyrff proffesiynol AHP yng Nghymru. Gan weithredu fel sefydliad ymbarél, mae AHPF Cymru yn cynnig arweinyddiaeth strategol, cynyddu'r sylw i rolau AHP a rhoi ffocws cydlynol i ddatblygiad gweithlu a thrawsnewid gwasanaeth. Mae ei genhadaeth, sef dylanwadu ar bolisi cenedlaethol a sicrhau bod gweithwyr AHP mewn sefyllfa i wella iechyd y boblogaeth, yn angori ei waith ar draws sectorau lluosog yn cynnwys iechyd cyhoeddus, gofal cymdeithasol, addysg, cyfiawnder a'r trydydd sector.

Mae blaenoriaethau strategol AHPF Cymru, yn cynnwys gweithlu, trawsnewid gwasanaeth ac arweinyddiaeth, yn hollol gydnaws gydag ymdrechion cenedlaethol parhaus i drawsnewid cyflenwi iechyd a gofal. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cydnabod yr arloesedd sydd eisoes wedi ymsefydlu o fewn ymarfer AHP a'r angen am ddatblygiad parhaus i ateb yr esblygiad yn anghenion poblogaeth Cymru. Mae'r dull cydweithio yma hefyd yn rhoi sylw i'r gydnabyddiaeth gynyddol fod heriau iechyd cymhleth yn galw am ddatrysiadau amlddisgyblaeth a bod gweithwyr AHP mewn sefyllfa unigryw i arwain gwaith o'r fath drwy eu dull gweithredu canoli ar y person, ataliol a seiliedig ar dystiolaeth.


Gyda'i gilydd, mae AHPF Cymru a AaGIC yn cynrychioli dau rym ategol sy'n llywio arloesedd ar draws y proffesiynau: un yn hybu arweinyddiaeth strategol a gwelededd, y llall yn llunio gweithlu'r dyfodol ac ymsefydlu addysg safon uchel. Mae eu dylanwad cyfunol yn galluogi gweithwyr AHP i ymchwilio modelau newydd o ofal, creu llwybrau amlddisgyblaeth a chyfrannu'n ystyrlon at flaenoriaethau cenedlaethol tebyg i atal, iechyd y boblogaeth, trawsnewid digidol a gofal seiliedig yn y gymuned.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn dathlu'r arloesi hwnnw, gan roi sylw i'r hyn a gyflawnwyd ar draws y proffesiynau, dangos enghreifftiau o drawsnewid sydd eisoes yn mynd rhagddo ac ymchwilio sut mae arweinyddiaeth AHP yn parhau i ailddiffinio'r hyn sy'n bosibl o fewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.



Dod â Gofal yn Agosach Adre

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr



Sicrhaodd 44.5% o breswylwyr ganolrif buddion gweithredol drwy therapi galwedigaethol mewngymorth cynnar, gan helpu i gynnal annibyniaeth.



Cefndir a Nod

Mae rhyddhau gohiriedig yn her yng Nghymru. Ym mis Mehefin 2024 canfu adolygiad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod 30% o breswylwyr cartrefi gofal mewn gwelyau welyau aciwt angen therapi estynedig a bod 17% angen cymorth uwch, yn dangos cyfleoedd a gollwyd ar gyfer ymyriad cynnar.

Ar yr un pryd, gwelwyd fod lefelau swyddi gwag a throsiant staff mewn gofal cymdeithasol yn cyfrannu at waethygiad gwrth-risg a monitro anghyson.

Gyda chefnogaeth Cronfa Fuddsoddi AHP Llywodraeth Cymru, fe wnaeth y tîm brofi model therapi galwedigaethol mewngymorth mewn dau gartref gofal yn Sir y Fflint, gan gyflenwi asesiad cynnar gyda ffocws ar swyddogaeth i gadw preswylwyr yn iach, hyrwyddo annibyniaeth, gostwng y nifer sy'n cael eu derbyn i ysbyty heb fod angen a gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r GIG.

Canlyniadau ac Effaith

Fe sefydlodd y cynllun peilot fodel newydd y gellid ei atgynhyrchu ar gyfer cyflenwi therapi galwedigaethol arbenigol

yn uniongyrchol mewn cartrefi gofal a chynhyrchu dulliau a phrosesau ymarferol i'w mabwysiadu'n ehangach. Roedd hefyd yn sicrhau buddion clir i breswylwyr, staff a'r system yn ehangach.

Sicrhaodd preswylwyr ganolrif buddion gweithredol o 44.5% drwy therapi galwedigaethol mewngymorth cynnar, gan helpu i gynnal annibyniaeth. Roedd therapi amserol yn cefnogi rhyddhau o ysbytai yn gyflymach ac yn fwy diogel, gan arwain at lai o ddibyniaeth ar atgyfeiriadau gan feddygon teulu.

Ar yr un pryd roedd hyfforddiant a chymorth amser real yn ategu galluedd cartrefi gofal ac yn hybu hyder unigolion gyda symudedd, ymddygiad ac offer arbenigol. Roedd gwell cyfathrebu ar draws sectorau yn symleiddio datrys problemau ac yn gostwng dyblygu.

Yn ariannol, heb gynnwys costau (£67,452), fe wnaeth un clinigydd sicrhau osgoi £81,734 o gostau mewn chwe mis. Pe byddai hyn yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru, gallai fod yn gyfwerth ag arbedion o fwy na £1.14m yn flynyddol, ac yn gwella integreiddio, gostwng gwastraff, helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a meithrin gwytnwch cymunedau.

DFEET – Gwasanaeth Brysbennu Cynnar Argyfwng Traed Diabetig

Cefndir a Nod

Gwelir diabetes fel baich cynyddol ar draws Cymru, gan effeithio ar amcangyfrif o 200,000 o bobl.

Dengys tystiolaeth fod gan gynifer â 2.5% o'r boblogaeth hon wlsrau troed diabetig ar unrhyw un amser, neu tua 5,000 o bobl. Mae cost clefyd traed diabetig yn Lloegr yn bron 1% o gyllideb y gwasanaeth iechyd a byddai'r ffigur yn debyg yng Nghymru.

Ers 2018 mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cynnig 'clinig cerdded i mewn' ar gyfer cleifion gyda diabetes ac argyfwng traed. Fodd bynnag, roedd archwilio ac adborth gan gleifion a staff yn dangos nad oedd y dull gweithredu hwn naill ai yn deg nac yn gynaliadwy. I atal hyn, sefydlwyd gwasanaeth DFEET, gyda'r nod uniongyrchol o ostwng nifer y cleifion sy'n aros mwy na tri diwrnod am eu hasesiad arbenigol cyntaf, atal mynychu amhriodol mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a chyswllt i feddygon teulu ar gyfer argyfyngau traed diabetig. Yn y tymor hwy, gobeithid y gallai'r gwasanaeth gynnig cyswllt ffonio yn gyntaf ar gyfer pob math o glwyfau traed ac ymestyn a chynyddu maint y model llwyddiannus ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Canlyniadau ac Effaith

Cafodd cyfanswm o 320 o gleifion eu hatgyfeirio at wasanaeth DFEET mewn cyfnod o 7 mis, gyda 299 (neu 93.4%) o'r cleifion hyn yn cael eu gweld o fewn 3 diwrnod o gael eu hatgyfeirio. Mae gan wasanaeth DFEET gyfradd iachau o 50% ar gyfer wlseriadau, bron ddwywaith y gyfradd gyfartalog genedlaethol o 26% ar gyfer pob wlseriad. O'r 324 apwyntiad rhithiol a wnaed, cafodd 103 o'r cleifion hyn eu trefnu tu allan i glinigau brys ar gyfer clwyfau, gan ostwng yr amser ar gyfer apwyntiadau diangen ar gyfer clwyfau gan 31%. Pan ofynnwyd iddynt dywedodd 240 o gleifion (59%) y byddent wedi mynd i weld meddyg teulu pe na bai'r gwasanaeth DFEET ar gael. Dywedodd 21 claf arall (5%) y byddent wedi mynd i wasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys.

Mae'r data a gasglwyd yn dangos cydberthynas gadarnhaol rhwng mynediad prydlon i'r gwasanaeth, gostwng ym maint clwyfau ac iachau wlsrau. Dangosodd hefyd fod defnyddio cyfleusterau gofal iechyd digidol hanfodol i reoli galluedd yn briodol mewn clinigau risg uchel yn ddymunol. Fodd bynnag, roedd angen mwy o allgymorth mewn gofal sylfaenol i sicrhau fod cleifion cymwys yn mynychu gwasanaeth DFEET cyn gynted ag oedd modd. Dangosodd dadansoddiad budd cost y bydd DFEET yn gostwng faint o arian a gaiff ei wario ar wlsrau troed diabetig mewn gofal sylfaenol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



Cafodd cyfanswm o 320 o gleifion eu hatgyfeirio at wasanaeth DFEET mewn cyfnod o 7 mis, gyda 299 (neu 93.4%) o'r cleifion hyn yn cael eu gweld o fewn 3 diwrnod o gael eu hatgyfeirio.



Dull Gweithredu Newydd ar y Cyd ar gyfer Llyncu, Maeth a Rheoli Meddyginiaeth yn Defnyddio Technoleg Ddigidol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg



Fe wnaeth y prosiect wella profiad a chanlyniadau clinigol ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal gan ostwng amserau aros gan 75%.



Cefndir a Nod

Mae dros hanner preswylwyr cartrefi gofal ac ysbytai yn cael anawsterau bob dydd gyda llyncu (dysffagia).

Gall hyn arwain at niwmonia allsgugno, diffyg maeth a diffyg cydymffurfiaeth gyda meddyginiaeth drwy'r geg, gan arwain at fwy o dderbyn i ysbytai a gostyngiad mewn ansawdd gofal bywyd ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal.

Fe wnaeth y prosiect dreialu model newydd ar y cyd ar gyfer darparu gofal yn defnyddio digidol tele-iechyd o bell. Drwy ymchwilio ffyrdd integredig o weithio rhwng therapi lleferydd ac iaith, dieteg a maeth a fferylliaeth, y nod oedd datblygu un pwynt cyfeirio i ddileu biwrocratiaeth ac osgoi rhoi cleifion ar restr i aros lluosog.

Roedd gwelliant gwasanaeth arfaethedig y prosiect wedi ei seilio ar fframwaith gwella iechyd a gofal a gydnabuwyd yn rhyngwladol, gyda ffocws ar:

- gwella profiadau gofal unigolion drwy ostwng amserau aros a derbyn gofal llyfn ac integredig gan nifer o weithwyr proffesiynol
- gwella canlyniadau clinigol yn defnyddio mesurau canlyniad therapi safonol i werthuso

gostwng costau neu gyfleodd niwtral o ran cost wrth ddefnyddio'r ymyriad newydd

- adrodd ar lesiant gweithlu o gyfweliadau a mesurau canlyniad a adroddwyd gan y gweithlu pan yn defnyddio'r model newydd hwn.
- asesu gofal teg i breswylwyr oedrannus gyda phroblemau iechyd cymhleth a chronig mewn cartrefi gofal wrth ddefnyddio technoleg ddigidol.

Canlyniadau ac Effaith

Fe wnaeth y prosiect wella rofiad a chanlyniadau clinigol ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal gan ostwng amserau aros gan 75%. Dangosodd y model sut y gallai gwasanaethau ddefnyddio technoleg i ddarparu gofal teg yn canoli ar y cleifion, gyda 85% o'r holl atgyfeiriadau yn cael eu cwblhau yn defnyddio tele-iechyd.

Mewn blwyddyn, cafodd 66 ychwanegol o ddyddiau gwely ysbyty eu rhyddhau a gallodd staff cymunedol weld hanner cant yn fwy o gleifion, gydag amcangyfrif arbedion posibl o bron £49,000 y flwyddyn. Gwelodd y prosiect hefyd welliannau yn hyder a llesiant y gweithlu, gyda goblygiadau posibl ar gyfer recriwtio a chadw.

Paratoi'n Dda (Orthopaedeg)

Cefndir a Nod

Rhagsefydlu yw'r broses o wella iechyd corfforol a meddyliol claf cyn llawdriniaeth er mwyn gwella canlyniadau, gostwng cymhlethdodau a chyflymu adferiad.

Nod y gwasanaeth Paratoi'n Dda (Orthopaedeg) yw cefnogi a gwella paratoadau seicolegol a chorfforol claf ar gyfer llawdriniaeth orthopaedig wedi'i chynllunio, gan eu helpu gyda'u hadferiad yn dilyn llawdriniaeth a byw'n dda gyda'u cymal newydd. Wedi ei ffurfio o dîm aml-ddisgyblaeth, yn cynnwys ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol, mae'n cynnwys dau gwr:

- cwrs 'rhagsefydlu' cyn llawdriniaeth a
- chwrs 'adsefydlu' yn dilyn llawdriniaeth.

Mae'r trosolwg hwn yn canolbwyntio ar y cwrs rhagsefydlu. Cynhelir y cwrs chwe wythnos mewn canolfannau hamdden yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae pob dosbarth yn cynnwys elfen ymarfer (60 munud) ac adran drafod gyda chynghorwr ar addasiadau ffordd o fyw (30 munud). Mae cynghorwr un-i-un hefyd ar gael gan therapydd arbenigol ym mhob sesiwn.

Canlyniadau ac Effaith

Soniodd y rhan fwyaf o bobl am newidiadau cadarnhaol ar draws yr holl ganlyniadau. Tybiwyd mai dim ond am tua chwe mis y byddai newidiadau mewn pryder am lawdriniaeth a theimlo'n gorfforol barod ar gyfer llawdriniaeth yn parhau ac erbyn hynny byddai'r llawdriniaeth wedi digwydd. Disgwylir i ganlyniadau eraill barhau'n hirach ond caiff llai o newid ei briodoli i Paratoi'n Dda (Orthopaedeg) wrth i amser fynd heibio.

Er ei bod yn anodd gosod gwerth ariannol ar y canlyniadau hyn, gwnaed amcangyfrif drwy edrych ar ddewisiadau masnachol a chysylltu hyn gyda phwysigrwydd y canlyniadau a nodwyd gan y sawl a gymerodd ran. Cafodd costau darparu'r gwasanaeth eu gwrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad mewn arhosiad ysbyty ar ôl llawdriniaeth. Roedd y gwasanaeth yn cefnogi defnyddwyr i ostwng pryder a dod yn barod yn gorfforol am lawdriniaeth. Ar ôl llawdriniaeth dywedodd pobl eu bod yn hyderus a bod ganddynt gymhelliant i reoli eu hiechyd a chadw'n actif. Mae'r canlyniadau hyn yn golygu y cafodd £2.86 o werth cymdeithasol ei greu ar gyfer pob £1 a fuddsoddwyd yn y gwasanaeth.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro




Mae'r canlyniadau hyn yn golygu y cafodd £2.86 o werth cymdeithasol ei greu ar gyfer pob £1 a fuddsoddwyd yn y gwasanaeth.



Arloesi Gwasanaeth Seicoleg Hygyrch, Effeithlon ac Effeithiol ar gyfer Iechyd Menywod

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



Cafodd 92% o'r mewnbwn seicolegol ei gyflenwi drwy'r platfform fideo.



Cefndir a Nod

Mae amledd uchel o ofid seicolegol ac emosiynol o fewn llwybrau iechyd menywod sy'n effeithio'n ddifrifol ar lesiant, iechyd meddwl, cymdeithasu, perthnasoedd a gweithredu galwedigaethol.

Dangosodd astudiaethau fod hyd at 86% o fenywod gyda endometriosis yn dioddef o iselder a bod 25% o fenywod gyda symptomau menopos yn profi iselder, gorbryder ac anawsterau gwybyddol.

Fe wnaeth y prosiect beilota model blaengar o ofal iechyd i wella gofid seicolegol o fewn iechyd menywod a cefnogi blaenoriaethau Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru drwy gryfhau mynediad i gymorth seicolegol. Roedd yn anelu i gynyddu dealltwriaeth o faint a natur anawsterau iechyd meddwl o fewn y grŵp cleifion hwn, gan asesu effeithiolrwydd ymagweddau seicolegol mewn iechyd menywod a pha mor dderbyniol fyddai model cyflenwi digidol i ostwng anghydraddoldeb iechyd.

Canlyniadau ac Effaith

Derbyniwyd cyfanswm o 163 atgyfeiriad ar draws sbectrwm eang o gyflyrau

gynaecolegol a chysylltiedig â'r menopos, gydag ystod oedran yn amrywio o 20 i 74 oed. Roedd y nifer fwyaf o atgyfeiriadau ar gyfer menopos, poen yn y pelfis ac endometriosis, gan ddangos fod angen seicolegol sylweddol heb ei ddiwallu yn y carfannau hyn. Cysylltodd y gwasanaeth yn llwyddiannus ag unigolion gyda chyflwyniadau cymhleth, gan ddangos ei berthnasedd a'i gyrraedd ar draws llwybrau clinigol amrywiol.

Roedd anawsterau iechyd meddwl yn sylweddol adeg asesiad, gyda 53% o atgyfeiriadau yn cyrraedd y trothwyon clinigol ar gyfer iselder a 81% yn cyrraedd y trothwy clinigol ar gyfer gorbryder. Arweiniodd ymyriadau seicolegol a gyflwynwyd drwy'r cynllun peilot at welliannau clinigol sylweddol mewn iechyd meddwl. Cafwyd hefyd newidiadau cadarnhaol mewn rheoli poen, statws iechyd tybiedig ac ansawdd bywyd. Cafodd 92% o'r mewnbwn seicolegol ei gyflenwi drwy'r platfform fideo.

Sicrhawyd buddion yn rhyddhau adnoddau gan lacio pwysau mewn gynaecoleg, poen, iechyd meddwl a gwasanaethau gofal heb eu trefnu ymlaen llaw. Nodwyd na wnaeth tair menyw oedd 'wedi mynychu Damweiniau ac Achosion Brys' yn aml ddychwelyd yn dilyn cyswllt gyda'r gwasanaeth gan ddangos newid wrth reoli gwaethygiad poen pelfis.

Parafeddygon Arbenigol yn Darparu Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Bywyd

Cefndir a Nod

Nod gofal lliniarol yw rhoi'r ansawdd bywyd gorau posibl i bobl gyda ffocws ar reoli poen a symptomau eraill dros yr wythnosau, misoedd neu flynyddoedd y mae rhywun yn byw gyda chyflwr sy'n cyfyngu eu bywyd.

Gofal diwedd oes yw'r gofal a chymorth a roddir i bobl yn eu hychydig wythnosau olaf neu ddyddiau terfynol. Mae pobl yn aml yn cael gofal lliniarol am beth amser cyn cael gofal diwedd bywyd.

Caiff rôl parafeddyg yn aml ei chysylltu gyda gofalu am gleifion trawma neu rai a gafodd drawiad calon neu strôc ond mae parafeddygon hefyd yn helpu cleifion sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes oherwydd salwch datblygedig, naill ai gyda rheoli symptomau brys neu waethygiad sydyn.

Er y caiff pob parafeddyg yng Nghymru eu hyfforddi i gefnogi'r cleifion hyn, mae'r prosiect yn ymestyn hyn drwy greu rôl unigryw, y parafeddyg gofal lliniarol, sy'n rhannu eu hamser rhwng cleifion yn y gymuned a'r rhai mewn lleoliad cleifion mewnol.


Canlyniadau ac Effaith

Cynlluniwyd y gwasanaeth i wneud y defnydd gorau o sgiliau arbenigol parafeddygon, gan gyfoethogi gwybodaeth a sgiliau tîm gofal lliniarol arbenigol Bae Abertawe. Cyn i'r parafeddygon ymuno â'r tîm roedd asesiadau brys weithiau yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill, yn cynnwys mewn gofal sylfaenol a gofal cymunedol.

Dangosodd adolygiad o'r cynllun hwn un mis cyn i'r parafeddygon ymuno â'r tîm, y cafodd 68% o alwadau eu trin yn bennaf gan y tîm gofal lliniarol arbenigol. Chwe mis ar ôl dechrau'r gwasanaeth, roedd y ffigur hwnnw wedi cynyddu i 82%, gan ddangos fod y tîm yn gofalu am fwy o gleifion nag erioed o'r blaen. Arweiniodd y newid hwn at ryddhau capasiti mewn gwasanaethau hanfodol eraill tebyg i nyrsio ardal, practisau meddygon teulu ac Adrannau Argyfwng.

Fe wnaeth hefyd wella cyfathrebu rhwng gwasanaethau ac arwain at ddefnydd mwy effeithiol o amser y tîm amlddisgyblaeth, gwelliant mewn amserau ymateb, gwell profiad i gleifion a defnydd mwy priodol o sgiliau.

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



Cafodd 82% o alwadau eu trin yn bennaf gan y tîm gofal lliniarol arbenigol.



Model Gwasanaeth Mynediad a Derbyn Cymunedol Cyflym AHP

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Cefnogodd Therapyddion Galwedigaethol Feddygon Teulu a Pharafeddygon o fewn yr Hwb Mordwyo Clinigol i gynnal ymweliadau cartref ar y cyd i atal yr angen i anfon gwasanaethau ambiwlans brys. Fe wnaethant ddarparu'r ymyrraeth angenrheidiol i sicrhau y gall yr unigolyn aros gartref yn ddiogel, pan fo'n bosibl.

Cefndir a Nod

Nod mynediad cyflym yw cefnogi pobl nad oes angen iddynt gael eu derbyn i ysbyty aciwt ond sydd angen cymorth i gael adferiad o salwch aciwt neu ddamwain.

Mae osgoi derbyn yn atal pobl rhag mynd i ysbyty neu gartref gofal os nad oes angen ac yn cefnogi pobl pan gânt eu rhyddhau o ysbyty, lle'n briodol, i'w helpu i barhau eu hadferiad aciwt i adennill a chadw cymaint o annibyniaeth ag sydd modd.

Mae'r rhaglen yn rhoi model aml-broffesiynol gyda mynediad cyflym i weithwyr AHP yn y gymuned, gan gynyddu annibyniaeth i'r eithaf ac atal gwaethygu sydd angen derbyn i ysbyty. Mae'r adnodd AHP ychwanegol yn gweithio o fewn ac wrth ochr timau aml-broffesiynol a/neu integredig presennol yn seiliedig yn y gymuned a chafodd ei ddatblygu ar y cyd.

Mae'r ffocws ar fynediad cyflym a syml i weithwyr AHP cymunedol, ymyriad cynnar i osgoi gwaethygu ac atal derbyn yn ddiangen, ac efallai yn niweidiol, i ysbyty.

Canlyniadau ac Effaith

Fe wnaeth therapyddion galwedigaethol gefnogi meddygon teulu a pharafeddygon o fewn yr Hyb Llywio Clinigol i gwblhau ymweliadau ar y cyd i gartrefi i atal yr angen i anfon gwasanaethau ambiwlans argyfwng. Roeddent yn cynnig yr ymyriad angenrheidiol i sicrhau y gall yr unigolyn aros yn ddiogel gartref, lle'n bosibl.

Mae cynlluniau ehangach yn gysylltiedig â'r trawsnewid yn cynnwys gwasanaeth atal syrthio 'Peidiwch â Syrthio Amdano' a ddatblygwyd ar y cyd gyda grwpiau cymunedol cyhoeddus a 'Bws Syrthio' ar gyfer cymunedau anodd eu cynnar.

Roedd y gwaith hwn yn gysylltiedig gyda chlinigau mynediad cyflym therapi lleferydd ac iaith, dieteg a phodiatreg seiliedig yn y gymuned a thraws-ranbarthol, sy'n rhoi mynediad cyflym amserol a theg i ddiagnosteg, triniaeth a chyfeirio at wasanaethau priodol.



Traed mewn Argyfwng: Trawsnewid Iechyd Traed

Cefndir a Nod

Bu cynnydd o bron 60,000 o bobl (17+ oed) rhwng 2009/10 a 2021/22 (13 mlynedd) mewn diabetes yng Nghymru.

Mae hyn yn gynydd o bron 40%. Mae problemau traed yn gyffredin mewn pobl gyda diabetes. Gall hyn ddigwydd dros gyfnod gyda difrod i nerfau, a elwir yn niwropat heg diabetig, yn achosi merwindod, cosi, poen neu golli teimlad.

Cychwynnodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg nifer o ymyriadau yn anelu i osod safonau newydd mewn iechyd a gofal traed ar draws y rhanbarth, yn cynnwys:

- Clinigau Mynediad Cyflym – oedd yn anelu i atal dirywiad mewn cleifion ac osgoi derbyniadau i ysbyty
- Gwasanaeth Podiatreg i Gleifion Mewnol: Rhaglen a gyllidwyd gan VBHC yn darparu cymorth ar-alwad yn ystod oriau gwaith ar gyfer problemau brys mewn traed oherwydd diabetes
- Clinigau Fasgwlaidd Amlddisgyblaeth: Mynd i'r Afael â Chlefyd Rhydweliol Ymylol – clinig newydd yn Ysbyty Dewi Sant.


Canlyniadau ac Effaith

Drwy ddatblygu clinigau mynediad cyflym, dan arweiniad y tîm podiatreg cymunedol, bu gostyngiad sylweddol mewn amserau aros mewn gofal sylfaenol ar gyfer cyflyrau brys mewn traed oherwydd diabetes ac achosion eraill – 21 diwrnod i ddim ond 48 awr ar gyfartaledd, yn gydnaws ag arweiniad NICE.

Gwelodd y gwasanaeth podiatreg mewngleifion ar gyfer derbyniadau traed diabetig aciwt yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg gyfradd ymateb o 97% i atgyfeiriadau cleifion mewnol o fewn un diwrnod gwaith (i fyny o 63%) a all o bosibl arwain at arhosiad ysbyty byrrach ar gyfer y cleifion. Mae'r cymorth ar-alwad yn ystod oriau gwaith ar gyfer problemau brys gyda'r traed oherwydd diabetes wedi helpu i osgoi derbyn diangen i ysbyty a sicrhau gofal prydlon.

Cyn sefydlu'r Clinigau Fasgwlaidd Amlddisgyblaeth newydd, gallai atgyfeiriadau brys gymryd hyd at saith mis i gael eu hadolygu. Caiff 64% o gleifion yn awr eu gweld o fewn 14 diwrnod gwaith. Mae'r clinig yn sicrhau brysennu a delweddu amserol, ymyriadau llawdriniaeth pan fo angen, cyngor ar feddyginiaeth ym mhob cyfarfyddiad ac adolygiad gan dîm amlddisgyblaeth ar gyfer pob atgyfeiriad. Mae ehangu'r ffyrdd newydd o weithio yn cael eu hystyried yn awr.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg



Gallai cyfeiriadau brys gymryd hyd at saith mis i gael eu hadolygu cyn sefydlu'r Clinigau Fasgwlaidd Amlddisgyblaethol newydd. Caiff 64% o gleifion yn awr eu gweld o fewn 14 diwrnod gwaith.



Anafiadau Caffaeledig i'r Ymennydd – Pont i Therapi

Bwrdd Iechyd
Prifysgol
Hywel Dda



Awgrymodd y canlyniadau fod gan 84 o bobl (68.3%) ddangosyddion posibl o anafiadau caffaeledig i'r ymennydd a fyddai wedi bod angen cwestiynu pellach adeg asesu ac unrhyw bwynt o'u cyswllt gyda'r gwasanaethau iechyd meddwl i benderfynu ar y posibilrwydd o anaf caffaeledig i'r ymennydd a chanlyniadau cysylltiedig.



Cefndir a Nod

Mae anafiadau caffaeledig i'r ymennydd yn gyffredin ar draws y Deyrnas Unedig ac mae ganddynt ganlyniadau tymor byr a hirdymor, gan arwain at anableddau parhaol a all amharu ar ansawdd bywyd.

Mae cysylltiad cryf gydag anawsterau iechyd meddwl a all effeithio ar ymgysylltu ag ymyriadau gofal iechyd, yn cynnwys seicotherapi sydd yn aml angen ei addasu.

Mae'r ymyriadau sydd ar gael ar gyfer pobl gydag anaf caffaeledig i'r ymennydd ac anawsterau iechyd meddwl yn ddarniog ac mae llawer o unigolion yn byw gydag anghenion cymorth na chânt eu diwallu. Er y gall anghenion hunan-dybiedig am gymorth gynyddu dros amser, mae darpariaeth gwasanaeth yn aml yn gostwng sy'n arwain at 'fwlch' mewn darpariaeth gofal achos neu ddarpariaeth annigonol.

Prif nod y prosiect hwn a gaiff ei arwain gan seicoleg clinigol yw gwella mynediad i therapi seicolegol ar gyfer pobl gyda phrofiad bywyd o anaf caffaeledig i'r ymennydd o fewn y GIG.

Canlyniadau ac Effaith

Cafodd 123 o deithiau cleient eu mapio drwy Wasanaethau Therapi Seicolegol Integredig Cynhaliwyd arolwg Iechyd Meddwl ac Anaf i'r Ymennydd, oedd yn cynnwys chwe chwestiwn am anafiadau caffaeledig i'r ymennydd a mynediad i gymorth iechyd meddwl yng Nghymru. Defnyddiwyd grwpiau ffocws a dadansoddiad thematig, gydag wyth o gyfranogwyr yn cynnwys sgwrs ymchwiliadol. Awgrymodd y canlyniadau fod gan 84 o bobl (68.3%) ddangosyddion posibl o anafiadau caffaeledig i'r ymennydd a fyddai wedi bod angen cwestiynu pellach adeg asesu ac unrhyw bwynt o'u cyswllt gyda'r gwasanaethau iechyd meddwl i benderfynu ar y posibilrwydd o anaf caffaeledig i'r ymennydd a chanlyniadau cysylltiedig.

Datblygwyd hyfforddiant ychwanegol i staff, a gafodd ei greu ar y cyd gan ofalwyr, arbenigwyr drwy brofiad a gweithwyr proffesiynol y GIG.

Mae'r ymchwil sydd ar gael ar amleddd a phrofiadau unigolion y mae anafiadau caffaeledig i'r ymennydd ac anawsterau iechyd meddwl wedi effeithio arnynt yn parhau i fod yn gyfyngedig yng Nghymru.

Sesiynau Trafod Datblygu Lleferydd ac Iaith

Cefndir a Nod

Mae datblygu lleferydd ac iaith yn sgil bywyd sylfaenol ar gyfer plant ac mae'n effeithio ar eu gallu i ddysgu, datblygu cyfeillgarwch ac, yn y pen draw, eu cyfleoedd bywyd.

Daw hyn yn amlwg yn y ffaith fod gan 71% o bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae 33% o blant gydag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn byw mewn ardaloedd difreintiedig iawn. Mewn rhai rhannau o Fae Abertawe canfuwyd fod bwlch geirfa o 16 mis rhwng plant o deuluoedd incwm uchel a phlant sy'n profi amddifadedd.

Aeth tîm Therapi Lleferydd ac Iaith Pediatrig Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ati i drin y pryderon hyn drwy sefydlu sesiynau 'trafod' newydd ar gyfer rhieni. Eu nod oedd gwrthdroi'r tueddiad a adroddwyd, gyda sesiynau anffurfiol a gynlluniwyd i gynnig cyngor a chymorth i rieni, gan ddynodi unrhyw broblemau posibl ar y cam cynharaf posibl.

Canlyniadau ac Effaith

Drwy'r ymyriad hwn, fe wnaeth tîm bach gyflymu'r broses asesu drwy osgoi'r system atgyfeirio gyda chlinigau 'trafod'. Bu'r sesiynau yn llwyddiannus gan roi arbediad amser o 33%, gan ryddhau'r tîm i fynd i'r afael â'u rhestr aros.

Yn flaenorol, byddai rhieni wedi bod angen gweld eu meddyg teulu neu ymwelydd iechyd i gael mynediad i wasanaeth Lleferydd ac Iaith Pediatrig y Bwrdd Iechyd. Roedd hyn yn dibynnu ar system atgyfeirio seiliedig ar bapur a dywedodd y tîm eu bod mewn cylch o atgyfeirio, brysbenno, asesu ac yna fynd ar restr aros ar gyfer therapi. Mae'r gwaith hwn wedi gostwng y camau hynny - gan wneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol ac arbed apwyntiadau lluosog yn y system iechyd. Mae hefyd wedi profi yn boblogaidd gyda rhieni - ac wedi golygu atal arhosiadau hir, a phryderon, am eu plant.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe




Bu'r sesiynau yn llwyddiannus gan roi arbediad amser o 33%, gan ryddhau'r tîm i fynd i'r afael â'u rhestr aros.




Tu Hwnt i'r Pelydr: Peilota Gwasanaeth Effeithiau Hwyr Radiotherapi dan Arweiniad Radiograffydd

Bwrdd Iechyd
Prifysgol Bae
Abertawe



Dywedodd 87.5% y bu'r gwasanaeth yn fuddiol. Yn bwysig, cafodd yr amser i gael mynediad i ofal arbenigol ei ostwng gan 75%.



Cefndir a Nod

Defnyddir radiotherapi i drin dros hanner pob cancer. Eto hyd yn oed gyda'r technegau diweddaraf, ni fedrir arbed meinwe iach yn llwyr gan arwain at docsigrwydd.

Mae effeithiau hwyr, a all ddod i'r amlwg fisoedd neu flynyddoedd ar ôl triniaeth, yn effeithio ar dros 500,000 o bobl sy'n byw gyda a thu hwnt i ganser yn y Deyrnas Unedig. Nid oes unrhyw wasanaeth neilltuoledig yng Nghymru ar hyn o bryd ar gyfer cleifion gyda sgil-ffeithiau hirdymor radiotherapi. Mae cleifion yn aml yn mynd gyda symptomau at wahanol weithwyr proffesiynol iechyd, a gall gymryd llawer o fisoedd i flynyddoedd i gael triniaeth effeithiol.

Nod y prosiect hwn oedd datblygu adolygiad peilot o wasanaeth effeithiau hwyr radiotherapi dan arweiniad radiograffydd ymhlith cleifion a gafodd radiotherapi pelfis y prostrad o leiaf chwe mis yn flaenorol. Byddai hyn yn helpu i adnabod anghenion cleifion yn gynnar a chodi ymwybyddiaeth am effeithiau hwyr ac opsiynau cymorth. Ar yr un pryd, byddai'n llacio pwysau ar dimau oncoleg a gofal sylfaenol drwy gyswllt prydlon dan arweiniad arbenigwr a llunio llwybrau gofal, gan leihau apwyntiadau ac ymchwiliadau diangen. Gobeithid y byddai hyn

yn gwella ansawdd bywyd ar gyfer cleifion, drwy roi triniaeth, atgyfeiriadau a strategaethau hunan-reoli ar gyfer sgil-ffeithiau hwyr, yn ogystal â hyrwyddo dealltwriaeth o effeithiau hwyr a llwybrau atgyfeirio ar draws y tîm gofal iechyd yn ehangach.

Canlyniadau ac Effaith

Sefydlwyd gwasanaeth peilot ar sgil-ffeithiau hwyr radiotherapi a chafodd 24 o gleifion eu gweld drwy gydol 2025. O'r rhai a ddefnyddiodd y gwasanaeth newydd, dywedodd 62% y bu gwelliant mewn symptomau yn dilyn cymorth ac ymyriad pwrpasol, gyda 70% yn adrodd gwell ansawdd bywyd. Dywedodd 87.5% y bu'r gwasanaeth yn fuddiol. Yn bwysig, cafodd yr amser i gael mynediad i ofal arbenigol ei ostwng gan 75%.

Fe wnaeth y gwasanaeth peilot ostwng apwyntiadau gyda meddygon teulu ac arbenigwyr gofal eilaidd. Gwelodd dileu'r angen am apwyntiad dechreuol gyda meddyg teulu a chyswllt dilynol drwy lwybr hunan-gyfeirio, osgoi dros £2,000 o gostau. Ymhellach, fe wnaeth llwybrau atgyfeirio newydd a symlach, cyswllt dilynol cyson ac ymyriad cynharach ar gyfer pob claf ostwng y nifer o brofion diangen gan osgoi tua £21,600 o gostau mewn apwyntiadau arbenigwr gofal eilaidd.

Arwain Trawsnewid Gwasanaeth gyda Ffocws ar Gleifion a Gofalwyr o fewn Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol Pediatrig

Cefndir a Nod

Mae therapyddion galwedigaethol therapiwtig yn cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni gweithgareddau y maent eu hangen, eu heisiau neu y disgwylir iddynt eu gwneud ond y cânt eu hatal rhag eu gwneud oherwydd amhariad, anaf neu gyflwr datblygiadol.

Nod therapi galwedigaethol yw cefnogi plant i ddysgu sgiliau newydd, gan eu helpu i ddod yn fwy annibynnol. Mae therapyddion galwedigaethol yn gwneud hyn drwy weithio gyda'r rhiant, plentyn, athrawon neu weithwyr proffesiynol eraill a all fod yn adnabod y plentyn.

Nod y trawsnewid hwn oedd creu mynediad amserol a theg i asesiad therapi galwedigaethol ac ymyriadau ar draws y bwrdd iechyd, gan roi plant yn y canol a gweithio gyda gofalwyr, rhieni ac athrawon i rymuso a chefnogi'r plentyn.

Canlyniadau ac Effaith

Roedd ailgynllunio'r gwasanaeth yn cynnwys hyfforddi clinigwyr mewn proses sgrinio ac atgyfeirio ganolog gadarn, gan newid systemau i reoli rhestr aros yn rhagweithiol i greu gweithlu mwy hyblyg a symudol. Fel canlyniad i'r trawsnewid hwn, cafodd rhestr aros eu gostwng o 45+ wythnos i saith wythnos. Edrychodd y gweithlu am gyfleoedd dysgu, gyda 80% yn cael modiwlau meistr a 65% o'r gweithlu heb gofrestru yn cwblhau Agored Cymru, gan arwain at gael y sgiliau a'r galluoedd i ddal llwythi achos wedi eu dirprwyo.

Cynhaliwyd sesiynau addysg grwpiau rhieni sy'n dysgu'r set sgiliau y mae rhieni/gofalwyr eu hangen ar gyfer ymdopi â a chefnogi anghenion eu plant. Roedd sesiynau cyngor ar gyfer rhieni, gofalwyr ac athrawon a'u galluogodd i gefnoi datblygiad eu plant yn yr ysgol – gan ymestyn rolau a sgiliau swydd i reoli plant yn eu haddysg.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



Fel canlyniad i'r trawsnewid hwn, cafodd rhestr aros eu gostwng o 45+ wythnos i saith wythnos.





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

ahpf cymru.wales

Amdani Addysg a Gwellu Iechyd Cymru

Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) yw sefydliad statudol addysg a strategol GIG Cymru.

Fel Awdurdod Iechyd Arbennig gyda chylch gorchwyl Cymru-gyfan, rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a llywodraeth i gryfhau'r gweithlu sy'n sylfaen i ofal yn GIG Cymru.

Fel y corff cenedlaethol ar gyfer cynllunio gweithlu, addysg, hyfforddiant ac arweinyddiaeth, mae gennym rôl ar draws y system wrth helpu GIG Cymru i ymateb i anghenion cyfredol a dyfodol y gweithlu.

Cyswllt

HEIW.AHP@wales.nhs.uk

Dilynwch ni ar

 Facebook

www.facebook.com/HEIW.NHS

 LinkedIn

www.linkedin.com/company/nhs-heiw

 YouTube

www.youtube.com/channel/UCFuTGHidqr8JCKQZM-iln9g

Amdani AHPF Cymru

Mae AHPF Cymru yn cynrychioli 15 o'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd yng Nghymru, Gyda'i gilydd, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (AHP) yw'r gweithlu trydydd mwyaf o ran maint yn y GIG gan ddod ag ehangder, angerdd, gwybodaeth a'r sgiliau i yrru a chefnogi newid.

Rydym yn therapyddion celf, therapyddion drama, therapyddion cerdd, orthoptegwyr, dietegwyr, podiatryddion, ffisiotherapyddion, therapyddion lleferydd ac iaith, orthotyddion a phrosthetyddion, therapyddion galwedigaethol, parafeddygon, ymarferwyr seicoleg, osteopathiaid, ymarferwyr adrannau llawdriniaeth a radiograffwyr. Rydym yn gweithio gyda phobl o bob oed; rydym yn diagnosio, rydym yn atal, rydym yn trin a rydym yn helpu pobl i fyw eu bywyd gorau.

Cyswllt

ahpf.cymru@ahpf.org.uk

 LinkedIn

www.linkedin.com/company/allied-health-professions-federation-cymru

 Instagram

www.instagram.com/ahpfcymru

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Cafodd y ddogfen hon ei chreu o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. I gael mwy o wybodaeth am unrhyw ran o'r cynnwys, cysylltwch ag AaGIC neu AHPF Cymru os gwelwch yn dda.